

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddona.
A gynhaliwyd ar Nos Fercher Mehefin 18 fed - 2014
am 7.30 o'r gloch.

1. Presennol - Cynghorwyr Myrddin Roberts (Cadeirydd, MR), Gill Cheverton (Is – Gadeirydd (GC), Geraint Parry (Clerc), Carwyn Jones (CJ), Alwena Roberts (AW), Rhian Hughes (RH), Dafydd Pritchard (DP)

2. Ymddiheuriadau - Cyng. A Rowlands, Cyng. M Williams a Cyng. P Gash.

3. Datgan Ddiddordeb

Cyng. L Davies ar geisiadau cynllunio.

4. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 21ain o Mai fel rhai cywir gan Cyng. A Roberts, eilio gan Cyng. G Cheverton gan newid un pwynt.

5. Materion yn codi o'r Cofnodion

5.1 **Wefan i'r Cyngor Cymuned** – linc i "Bar Code Scanner" ar y wefan. Disgwyl manylion.

5.2 **Fynwent Llanddona** - CJ yn adrodd fod y cais nawr ar fwrdd arolygiaeth cynllunio.

5.3 **Llwybr Tai Bach** - Cyng. L Davies wedi cysylltu gyda'r swyddog, datgan disgwyliad bydd yr adroddiad drafft yn cael ei gwblhau erbyn diwedd y mis.

5.4 **Difrod ar y Traeth** - AR yn adrodd bod wedi gweld 5 carafanetau yno. Cyng. L Davies wedi gofyn i'r Heddlu cadw golwg ar yr ardal. Oherwydd bod y broses o wneud cais trwy'r Cyngor Sir i gael gosod arwyddion

Clerc wedi cysylltu â Phil Scott (Cadeirydd atyniadau awyr agored) gyda phryderon gyda'r jet sgis, lle mae wedi anfon ymlaen is-ddeddfau gweithgaredd morwrol. Clerc wedi cysylltu ar harbwr feistr, lle nad ydynt wedi derbyn unrhyw sylwadau gan warden y traeth. Mae gwasanaeth y warden yn gorffen 7 o'r gloch bob nos. AR yn cynnig cysylltu ar warden lleol.

Penderfynwyd trwy gynnig gan RH ac eilio gan AR i bwrcasu 3 arwydd dwyieithog "Dim parcio a campio dros nos" i osod yn y traeth.

5.5 **Gwasanaeth Cymdeithasol, adeiladu cymunedau** - RH a GC wedi llenwi holiadur gyda gwybodaeth a gofynnwyd. Clerc yn diolch iddynt.

5.6 **Llwybrau lleol** – Cawsom ad-daliad o £1,374 gan y Cyngor Sir yn erbyn gwariant o £1,620 yn 2012/13 (85%)

5.7 **Defibrilator** – i drafod ymhellach.

5.8 **Cadw Biniau yn Ponc y Felin** – Clerc wedi anfon llythyr i adran Tai.

5.9 **Cerrig ger Llain Gron** - dim wedi derbyn ymateb i ein llythyr. Cyng. L Davies i ddilyn hyn i fyny.

5.10 **Rhodd at unigolyn** - Clerc yn egluro'r sefyllfa. LD yn gofyn, gall y Cyngor Cymuned gwneud rhodd i Ysgol? Clerc i gael arweiniad.

5.11 **Hawliau tramwy, Gwelfryn** - Clerc wedi gweithredu y cais.

6. Adroddiad gan y Cynghorwyr

LD - awgrymodd ein bod yn ysgrifennu i Adran Eiddo'r Cyngor Sir i ofyn a posib cael defnydd o'r offerion maes chwarae'r Ysgol. Mae'r maes chwarae yn rhannol i'r pentre'. Clerc i weithredu.

LD – craciau lôn y traeth – Cyngor Sir wedi trefnu arbenigwr ymweld ar safle.

LD – cais Cae Maes Mawr wedi ei wrthwynebu. Mae gan yr ymgeisydd hawl i apelio.

7. Ceisiadau Cynllunio

- 22C220 - Cais llawn ar gyfer dymchwel, addasu ac ehangu yn 7 Mynydd Crafoed, Llanddona – dim gwrthwynebiad.

- 22C221 – Cais llawn ar gyfer creu man parcio dros dro ar dir ger Erwau'r Môr, Llanddona – dim sylwad.

Er gwybodaeth

- 22C218 Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Glan Gors, Llanddona – wedi ei caniatu.

- 22C215 Cais llawn ar gyfer codi caban cyfnerthydd ar safle gwasanaeth gronfa – wedi ei caniatu.

8. Tir Comin – Gerallt Llewelyn Jones (Menter Môn)

Gerallt Jones yn egluro'r sefyllfa hanesyddol gyda'r tir comin o gylch yr Ysgol. Eglurwyd fod hi yn hynod o bwysig bod y tir yma yn cael ei gofrestru yn enw'r Cyngor Cymuned oherwydd y penderfyniad gan y Cyngor Sir i gau'r Ysgol. Mae hefyd yn bwysig ein bod yn ystyried yr angen symud yr offerion chwarae.

Dilyn problemau canlynol gafwyd yn flaenrol trwy drosglwyddo tir comin o Menter Môn i'r Cyngor Cymuned, penderfynwyd fod Gerallt ar Clerc cwrdd ar gyfreithiwr blaenrol i fynd ar afael ar faterion. Hefyd penderfynwyd gweithio trwy gyfreithiwr arall. Cadeirydd yn diolch i Gerallt am fynychu.

9. Llwybrau Lleol

Llwybr Tan Dinas Rhif 57 (Tan Dinas)– dim wedi derbyn ymateb i ein llythyr.

10. Cyfrifon - cytunwyd i dalu:-

- Ysgol Gynradd Llanddona – hurio ystafell mis Mai/Mehefin £40.00
- Clerc yn rhannu gwybodaeth ar incwm a gwariant 2013/14

11. Gohebiaeth

Pecyn – Diogelwch Arfordirol

Llythyr – Cyngor Dref Biwmares, Sul y Maer, 20/07/14

Llythyr – Cyngor Sir, arolwg mynwentydd a manau chwarae lleol

Llythyr – Un Llais, cyfarfod blynyddol 26/06/14

Llythyr – Cyngor Sir, hyfforddiant Cod Ymddygiad

e-bost – Phil Scott

e-bost - Rhian Hughes, Neuadd y Pentre'

e-bost – Lewis Davies – hollt yn y lôn lawr i'r traeth

e-bost – Edward Evans, Llwybr Tai Bach

12. UFA:

12.10 Wedi derbyn cais gan Neil Warland, i osod peipen dwr dros dir comin hyd at safle ger Glan Gors.

Penderfynwyd trefnu hawddfaint trwy gyfreithiwr. Clerc i weithredu a chysylltu gyda'r ymgeisydd.

12.11 Clerc wedi llenwi arolwg ar fynwentydd a maes chwarae lleol.

12.12 Galw Oer – swyddog i fynychu cyfarfod mis Medi.

12.13 John Williams, Biwmares wedi cysylltu gan ofyn pwy sy'n berchen ar dir wrth y safle bws yn Gorslwyd?

Awgrymwyd iddo gysylltu ar Swyddfa Gofrestru Tir.

12.14 Wedi derbyn gwahodd i Sul y Maer 20/07/14.

12.15 Clerc yn rhannu ymarfer Cod Ymddygiad

12.16 DP yn adrodd fod angen torri cloddiau Castell Tirion a Tan Ffordd Uchaf.

12.17 Maes Canmlwyddiant - Mae Royal British Legion yn arwain ar fenter sy'n ceisio sicrhau manau hamdden am byth er anrhydedd y bobl a gollodd eu bywydau yn rhyfel byd un. Awgrymodd GC ein bod yn cynnig y maes chwarae gyda RH yn eilio.

12.18 RH yn adrodd bod Pwyllgor Neuadd y Pentre' yn siomedig ar ôl colli allan ar grant y loteri. Mynd i ysgrifennu iddynt wrth ofyn beth yw eu dewisiadau nawr a gallant ail-wneud cais. Hefyd am ysgrifennu i'r Cyngor Sir i ofyn am gefnogaeth er mwyn atal cau'r Neuadd.

13. Dyddiad cyfarfod nesaf:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ei gyfraniad.

Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.50 o'r gloch.

Penderfynwyd Cyfarfod nesaf 16/07/14 am 7.30. Hwn fydd y cyfarfod olaf yn yr Ysgol.

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad